

Rheoliadau Cynllunio a Chadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, etc) 1994 (OS 1994 / 2716).



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Adran yr Amglychedd, Cynllunio a Cefn Gwlad
Department for Environment, Planning and Countryside

Prif Swyddogion Cynllunio
Cyngorau Sir a Pharciau
Cenedlaethol yng Nghymru

Gorffennaf 2004

Annwyl Gyfaill

Rheoliadau Cynllunio a Chadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, etc) 1994 (OS 1994 / 2716).

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i sicrhau bod safleoedd dynodedig a rhywogaethau sy'n bwysig o ran cadwraeth natur yn cael eu gwarchod rhag difrod a dirywiad, gyda'u nodweddion pwysig yn cael eu gwarchod gan reolaeth briodol. Diben y llythyr hwn yw'ch atgoffa am ofynion y rheoliadau uchod, wrth ystyried cynigion datblygu sy'n dod ger eich bron trwy'r system gynllunio.

Cyn penderfynu ymgymryd â chynllun neu brosiect neu roi caniatâd cynllunio ar eu cyfer, dylai awdurdodau cynllunio lleol asesu goblygiadau datblygiad ar unrhyw rywogaethau a warchodir sydd i'w cael ar y safle. Er mwyn sicrhau bod rhywogaethau a restrir o dan Atodlenni 2 a 4 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, etc.) 1994 yn cael eu gwarchod, mewn perthynas â phenderfyniadau cynllunio, fe'm cynghorwyd y gallai fod yn hanfodol yn aml cael ffurf o eiriau fel amod safonol, i'w atodi i unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol, a hynny o ddyddiad y llythyr hwn. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai modd i unrhyw ganiatâd o'r fath gael ei weithredu nes i drwydded i aflonyddu unrhyw rywogaethau a restrir o dan Reoliadau 1994 gael ei rhoi, a nes i gopi ohoni gael ei gyflwyno er boddhad yr awdurdod cynllunio lleol.

Mae'r amod yn darllen:

Lle y mae unrhyw rywogaethau a restrir o dan Atodlenni 2 neu 4 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol, etc.) 1994 yn bresennol ar y safle [neu ran arall ohono a nodwyd] y rhoddir y caniatâd cynllunio hwn mewn perthynas ag ef trwy hyn,

rhaid peidio ag ymgymryd ag unrhyw waith clirio safle na gwaith dymchwel nac adeiladu yn unol â'r caniatâd cynllunio hwn oni bai fod trwydded i aflonyddu unrhyw rywogaethau o'r fath wedi'i rhoi yn unol â'r Rheoliadau a grybwyllwyd a bod copi ohoni wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol."

Er nad yw'r amod yn rhoi amddiffyniad lle y mae caniatâd cynllunio eisoes wedi'i roi, mae'n hanfodol eich bod yn ei amgáu fel y bo'n briodol wrth roi caniatadau cynllunio newydd er mwyn sicrhau bod rhywogaethau anifeiliaid a a phlanhigion sy'n dod o fewn telerau'r Rheoliadau yn cael eu gwarchod yn effeithiol.

Dylai'ch ecolegydd neu'ch Swyddog LAP allu eich cynghori pryd y dylai amod o'r fath gael ei amgáu.

Os hoffech gael eglurhad neu drafod cynnwys y llythyr hwn ymhellach, cysylltwch â Jeff Spear ar 029 2082 3714.

Kay Powell

Pennaeth yr Is-adran Gynllunio